## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (LLANDEILO I LANYMDDYFRI, SIR GAERFYRDDIN) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Llandeilo a Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A40 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darnau o’r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw’r Gorchymyn i rym ar 2 Ionawr 2022. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a’r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o’r gloch ar 2 Ionawr 2022 hyd 23:59 o’r gloch ar 30 Ionawr 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i’r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau’n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu’r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i’r amseroedd a’r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (LLANDEILO TO LLANDOVERY, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Llandeilo and Llandovery, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A40 trunk road described in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 10 mph speed limit on the lengths of the A40 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 2 January 2022. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate from 00:01 hours on 2 January 2022 until 23:59 hours on 30 January 2022 or until the temporary traffic signs have been permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.1 o gilometrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4302, man i'r gogledd o Landeilo hyd at bwynt 460 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4069 yn Ashfield.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4069 yn Ashfield hyd at bwynt 133 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2157, man i'r gogledd-orllewin o Lanymddyfri.

## ATODLEN 2
**Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Llandeilo (gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol) hyd at bwynt tua 1.1 o gilometrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4302.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 460 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4069 yn Ashfield hyd at bwynt 260 metr i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 133 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2157 hyd at ei chyffordd â'r A483 yn Llanymddyfri.

## SCHEDULE 1
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the trunk road that extends from a point approximately 1.1 kilometres north-east of the centre-point of its junction with the B4302, north of Llandeilo to a point 460 metres south-west of the centre-point of its junction with the A4069 at Ashfield.

The length of the trunk road that extends from a point 260 metres north of the centre-point of its junction with the A4069 at Ashfield to a point 133 metres south-east of the centre-point of its junction with the C2157, north-west of Llandovery.

## SCHEDULE 2
**Temporary 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the trunk road that extends from Llandeilo Roundabout (including its circulatory carriageway) to a point approximately 1.1 kilometres north-east of the centre-point of its junction with the B4302.

The length of the trunk road that extends from a point 460 metres south-west of the centre-point of its junction with the A4069 at Ashfield to a point 260 metres north of the centre-point of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 133 metres south-east of the centre-point of its junction with the C2157 to its junction with the A483 at Llandovery.